# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Mawrth 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw'n ymwybodol bod arolygon dwr daear wedi'u cynnal mewn ardaloedd helaeth o Grangetown, Butetown, Canol Caerdydd, Splott ac Adamsdown cyn cronni'r dyfroedd ym Mae Caerdydd i ddechrau, ac y cafwyd cytundeb i gynnal ail arolwg 6 mis ar ôl y cronni; ond nad yw'r arolwg yn ddilys bellach oherwydd i'r llyn gael ei ddraenio a'i ail-lenwi mor aml. A yw'n fwriad erbyn hyn i gynnal ail arolwg 6 mis ar ôl cronni'r dwr croyw'n barhaol, pan fydd y lefelau wedi'u sefydlu. (WAQ4347)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** O ystyried bod systemau sgrinio carthffosiaeth sy'n bodloni safonau Ewropeaidd yn eu lle yng nghyffiniau Bae Caerdydd ei hun, a all gadarnhau bod y systemau sgrinio carthffosiaeth ar yr Afonydd Taf ac Elái uwchben lefel uchaf y llanw yn bodloni'r un safonau Ewropeaidd angenrheidiol. (WAQ4348)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**David Davies (Mynwy);** A oes ganddo'r grym i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylid dysgu addysg rhyw mewn ysgolion. (WAQ4311)

**David Davies (Mynwy);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol ar sut y dylid trafod cyfunrhywiaeth mewn ysgolion. (WAQ4312)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff ddatganiad ar bolisi Cyngor Llyfrau Cymru

ynghylch marchnata llyfrau nad ydynt wedi derbyn grantiau cyhoeddi gan y Cyngor. (WAQ4336)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gwmnïau sydd â thrwyddedau ar hyn o bryd i dreillio tywod o 'Ddyfroedd Cymru', ymhle maent yn berthnasol, a faint o dywod mae ganddynt hawl i'w dreillio yn unigol. (WAQ4317)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o dywod a gynigir i'w gymryd o 'Ddyfroedd Cymru' dros y 10 mlynedd nesaf; o ble y bwriedir ei dynnu; a faint o dywod y bwriedir ei dynnu (o bob safle unigol). (WAQ4316)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Ymhle yn 'Nyfroedd Cymru'y mae tywod yn cael ei dreillio ar hyn o bryd, a faint o dywod a gymerir o bob safle yn unigol. (WAQ4315)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o dywod sydd wedi'i gymryd o 'Ddyfroedd Cymru' dros y 5, 10, 15, 20, 25 mlynedd diwethaf, a phob cyfnod 5 mlynedd arall a gofnodwyd. (WAQ4314)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o dywod sydd wedi'i gymryd o draethellau Nash a Helwick yn unigol dros y 5, 10, 15, 20, 25 mlynedd diwethaf, a phob cyfnod 5 mlynedd arall a gofnodwyd. (WAQ4313)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff gyflwyno cynllun newydd, â chyllid digonol, ar gyfer ffermwyr i adfer gwrychoedd. (WAQ4349)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Ar ba ddyddiad fydd y gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei gadarnhau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent i brynu safle Glofa’r Six Bells. (WAQ4350)